LIVING STREETS

DEWCH I NI GERDDED I'R YSGOL

# Bathodynnau WOW a chynaliadwyedd



**RYDYN NI AM I BLANT IACH, HAPUS I GERDDED AR BLANED IACH, HAPUS.**



Yma yn Living Streets, rydym am sicrhau ein bod yn annog teithiau iach a chynaliadwy i'r ysgol, yn ogystal â sicrhau bod ein hadnoddau yn dod o ffynonellau moesegol a chynaliadwy hefyd.

## Oeddech chi'n gwybod?

- Mae pob un o'n bathodynnau WOW wedi'u gwneud o ddeunydd plastig wedi'i ailgylchu, gan gynnwys hen hambyrddau oergell, platiau plastig a hyd yn oed toriadau potiau iogwrt a fyddai fel arall yn mynd i safleoedd tirlenwi.
- Mae bathodynnau WOW yn cael eu cynhyrchu yn y DU, gan leihau ein hôl troed carbon.
- Mae pob bathodyn yn cyrraedd mewn pecynnau bioddiraddadwy, ecogyfeillgar. Yr oll sydd angen i chi ei wneud yw eu hychwanegu at eich bin ailgylchu neu'ch compost.
- Ers 2019, rydym wedi ailgylchu ac ailddefnyddio 1.1 miliwn o fathodynnau WOW.



## Bathodynnau ysgafnach, gwyrddach!

Rydym wedi gweithio gyda'n cadwyn gyflenwi i ddatblygu bathodyn WOW ysgafnach, gan leihau ein hôl troed ymhellach a chefnogi'r amgylchedd. Mae ein bathodynnau newydd yn cael eu gwneud gyda 40% yn llai o ddeunydd plastig wedi'i ailgylchu, wrth barhau i fod mor lliwgar a gwydn ag erioed.



# Beth allwch chi ei wneud?





**1** **Gwerthfawrogwch eich bathodynnau, rydych chi wedi eu hennill!**
Mae pob bathodyn WOW wedi'i ddylunio'n feddylgar gan ddisgybl o bob rhan o'r DU fel rhan o'n cystadleuaeth dylunio bathodynnau blynyddol. Mae'n wobr y gellir ei chasglu am gerdded i'r ysgol, i'w chadw am flynyddoedd i ddod.

**2** **Ailgylchwch**
Pan fydd gormod o fathodynnau neu pan na fydd eu hangen arnoch mwyach, rydym yn eich annog i'w hailgylchu lle bynnag y bo modd. Gallwch wneud hynny os yw eich cyfleusterau lleol yn derbyn Polystyren Ardrawiad Uchel (HIPS), gan dynnu unrhyw binnau yn gyntaf. Rydym yn argymell bod oedolyn yn tynnu pob pin.



## BETH NESAF?

Rydym wedi ymrwymo i adolygu ein harferion yn barhaus i sicrhau bod ein hadnoddau yn foesegol a chynaliadwy. Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn gweithio gyda'n cyflenwyr i ddatblygu ffyrdd gwell fyth o ailddefnyddio ac ailgylchu ein bathodynnau WOW, yn ogystal ag archwilio deunyddiau amgen.

**livingstreets.org.uk/wow**

**Cymerwch ran ar y cyfryngau cymdeithasol:**

**@LIVINGSTREETS** **LIVINGSTREETSUK** **LIVINGSTREETS**

Mae Living Streets (The Pedestrians' Association) yn Elusen Gofrestredig Rhif. 1108448 (Cymru a Lloegr) a SC039808 (Yr Alban), Cwmni Cyfyngedig drwy Warant (Cymru a Lloegr), Rhif Cofrestru'r Cwmni 5368409.